

# CHEME

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Haf 2014

## YN Y RHIFYN HWN...


Rhoi sylw i ymchwil
Rhoi sylw i Gynadleddau
Digwyddiadau i ddod
Trefniadau cyllido newydd
Newyddion am Staff
Cyhoeddiadau diweddar


## Croeso i bumed cylchlythyr y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau a gweithgareddau ymchwil yn ystod hanner cyntaf 2014. Mae uchafbwyntiau yn cynnwys lansiad llwyddiannus y cwrs byr CHEME mewn Economeg Iechyd ar gyfer ymarfer ac ymchwil i Iechyd Cyhoeddus - a fydd yn cael ei gynnal eto'r flwyddyn nesaf Mawrth 23ain tan y 25ain 2015; y grŵp Ffarmaeconomeg yn ennill y Wobr Cynyddu Effaith yr ESRC am yr Effaith Orau ar Bolisi Cyhoeddus, a'r Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG). Roedd cynhadledd ar y thema Cynaliadwyedd ac Iechyd Amgylcheddol, wedi'i chynnal yn y Ganolfan Technoleg Amgen.

Ceir mwy o wybodaeth ar ymchwil, dysgu a gweithgareddau cefnogol GIG ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu drwy gysylltu â'n gweinyddwyr Ann Lawton: a.b.lawton@bangor.ac.uk Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor and @ProfRTEdwards.

**Dyfrig Hughes & Rhiannon Tudor Edwards**

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME



Rhiannon Tudor Edwards yn siarad yn y cwrs byr Economeg Iechyd ar gyfer Ymarfer ac Ymchwil i Iechyd Cyhoeddus a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor

## Gwobr ESRC am yr Effaith Orau ar Bolisi Cyhoeddus

Yn seremoni Gwobrau Effaith ac Arloesi blynyddol Prifysgol Bangor, enillodd Dyfrig Hughes a chydweithwyr o adran ffarmaeconomeg CHEME Wobr Cynyddu Effaith yr ESRC, Effaith Orau ar Bolisi Cyhoeddus a/neu Wasanaethau Cyhoeddus.

Mae ymchwil CHEME ar bolisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i feddyginiaethau newydd wedi cael effaith drwy hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau pa feddyginiaeth newydd sydd yn cael eu hasesu. Dylanwadodd ein hymchwil hefyd ar ddewisiadau Llywodraethau Cymru a'r Alban i wrthod y syniad o gael cronfa cyffuriau canser. Yn wahanol i'r GIG yn Lloegr, lle mae £200m yn cael ei glustnodi'n flynyddol ar gyfer meddyginiaethau canser, mae polisïau yng Nghymru ac yn yr Alban yn anelu at leihau anghydraddoldebau yn y gwasanaeth iechyd drwy sicrhau bod cleifion o bob cyflwr yn gallu derbyn triniaethau effeithiol. Mae CHEME hefyd yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan er mwyn cynnal asesiadau economeg iechyd o feddyginiaethau newydd i Gymru. Mae'r asesiadau hyn (dros 200 hyd yma) yn hysbysu'r penderfyniadau a wnaed gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), ac wedi bod yn gyfrifol dros wario £263m gan y GIG yng Nghymru dros y cyfnod 2006-12.

Wrth dderbyn y wobr, dywedodd Dyfrig Hughes: "Ers sefydlu ymchwil ffarmaeconomeg o fewn CHEME bron i ddegawd yn ôl, mae'r ffocws wastad wedi bod ar gyflawni cynnyrch o safon uchel sydd yn effeithio ar bolisi iechyd yn uniongyrchol. Rydw i wrth fy modd ein bod wedi chwarae rhan fechan yn siapio rhai polisïau GIG ac mae'n fraint gennyf dderbyn y wobr hon i gydnabod y llwyddiannau hyn."

## Commonwealth Fund Harkness Alumni Health Policy Forum yn Washington, USA, Gorffennaf 2014

Cafodd ymchwil gan Rhiannon Tudor Edwards a James Burrows ar Wasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref ar Ynys Môn ei gyflwyno yn Washington DC ar 7 Gorffennaf 2014.

Mae eu hastudiaeth, ar y cyd â chydweithwyr yn BCUHB, Chris Couchman a Glynis Tabberer, i'w chyhoeddi yn ddiweddarach gan y Commonwealth Fund. Mae Gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref ar Ynys Môn yn caniatáu i gleifion hŷn yn bennaf dderbyn gofal yn y cartref drwy eu meddyg teulu a'r Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol Uwch. Mae'r gofal meddygol arbenigol hwn yn y cartref, gyda chefnogaeth gan ymgynghorydd ysbyty, yn ychwanegol at y gwasanaeth ymateb cyflym ar yr ynys ac yn meithrin perthynas agosach rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Commonwealth Fund yn fudiad polisi iechyd tra phwysig sy'n dylanwadu ar bolisi iechyd rhyngwladol a pholisi'r Unol Daleithiau - http://www.commonwealthfund.org/



Mewn cinio a ddarparwyd gan Brifysgol Bangor mae Lorna, Catrin, Colin a Dyfrig yn derbyn Gwobr Cynyddu Effaith yr ESRC 2014, Effaith Orau ar Bolisi Cyhoeddus a/neu Wasanaethau Cyhoeddus.

## Costau dewisiadau Gwerthusiad Technegol (TA) gan NICE yng Nghymru

Mae ymchwil gan Dyfrig Hughes ar y cyd â chydweithwyr o'r Swyddfa Economeg Iechyd yn ceisio edrych sut mae Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn newid eu gwariant i gwrdd â'r angen statudol o ddarparu mynediad at dechnolegau wedi'u hargymell gan NICE.

Dangosodd y canlyniadau y gall gwasanaethau symud fel rhan o ymateb i effaith gynyddol pob math o bwysau cost, gan gynnwys technolegau cost-gynyddol a argymhellwyd o'r newydd gan NICE, ond nid yw'r fath symudiadau yn ymatebion uniongyrchol i gyhoeddi Gwerthusiadau Technegol unigol NICE. Yn hytrach, mae pwysau cost gan Werthusiadau Technegol newydd NICE yn debygol o gael eu lliniaru'n rhannol gan effeithiolrwydd a gwariant cynyddol.

Cafodd hwn ei gyhoeddi fel papur ymchwil. Cewch fanylion llawn yma: http://www.ohe.org/publications/article/opportunity-costs-and-nice-decisions-in-wales-146.cfm

## WHEG 5-6 Mehefin 2014

Trefnodd CHEME gyfarfod Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) yr haf hwn yn y Ganolfan Technoleg Amgen yng Nghorris, Machynlleth. Roedd gan y digwyddiad thema cynaliadwyedd amgylcheddol ac iechyd.

Cafwyd cyflwyniad gan Jane Davidson, ein prif siaradwr a chyn Weinidog dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yng Nghymru, ar gysylltiadau rhwng cynaliadwyedd ac iechyd. Erbyn hyn mae Jane yn gyfarwyddwr sefydliad cynaliadwyedd newydd, INSPIRE, (Sefydliad ar Ymarfer Cynaliadwyedd, Arloesi ac Effeithiolrwydd Adnoddau) ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Rhoddodd Paul Allen, Swyddog Cysylltiadau Allanol CAT, gyflwyniad ar Ymchwil ddiweddar CAT i Brydain Carbon Sero, gan egluro'r cysylltiad rhwng y rhain ag iechyd cyhoeddus a phroblemau megis gordewdra. Cewch fwy o fanylion ar y we ar: www.zerocarbonbritain.org.

Rhoddwyd nifer o sgyrsiau gan aelodau CHEME. Cyflwynodd Dyfrig Hughes waith ar fater y datblygiad mewn cyffuriau amddifad a chyflwynodd Nathan Bray ar y project cyfredol Cartrefi Cynnes, Gwell Iechyd, a sut mae dylanwad gwelliannau i gartrefi yn effeithio ar iechyd poblogaeth. Trafododd Paul Parham gost-effeithiolrwydd ymyriad malaria mewn hinsoddau gwahanol a chyflwynodd Laura Budd ei hymchwil PhD ar y dewis o driniaethau yn dilyn canser gynaecolegol.

Rhoddodd Eleanor Heather o Ganolfan Newid Ymddygiad Cymru, Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor, gyflwyniad ar economeg ymddygiad a dewis pensaernïaeth yng nghyd-destun y Ganolfan Gelfyddydau PONTIO newydd, ac i ddilyn, cafwyd trafodaeth ar beth oedd y dulliau gorau o ymchwilio, astudio ac asesu.

## Ail weithdy defnyddwyr grŵp ICECAP 15-16 Chwefror 2014

Cyflwynodd Lucy Bryning a Carys Jones bosteri yn y gweithdy defnyddwyr grŵp ICEAP a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Birmingham fis Chwefror. Wedi'i gyllido gan y 'MRC Hubs for Trials Methodology Research', roedd y digwyddiad deuddydd yn archwilio defnyddio mesuriadau ICECAP mewn treialon clinigol a gwerthusiad economaidd.




Ned gydag Audrey Schoomaker yn y Medical Yoga Symposium. Mae Audrey a'i gŵr Eric, cyn lawfeddyg cyffredinol ym Myddin yr Unol Daleithiau, wedi bod yn allweddol wrth gyflwyno technegau wedi'u seilio ar yoga a meddygaeth integreiddiol ym Myddin yr Unol Daleithiau.

## Cost-effeithiolrwydd yoga

Rhoddodd Ned Hartfiel gyflwyniad ar "Cost-effectiveness of yoga to reduce back pain and stress in the workplace" mewn dwy gynhadledd ymchwil:

1) Medical Yoga Symposium, Washington DC: a gynhaliwyd gan The Smithsonian Institute a Phrifysgol George Washington, 11-12 Ionawr 2014

2) Yoga and Health: Research and Practice, London. Cynhaliwyd gan UCL a CONFER, 4-6 Ebrill 2014

## Digwyddiadau i ddod

Bydd Dyfrig Hughes yn cynnal Symposiwm Ymchwil Meddyginiaethau Gogledd Cymru 2014 ar 4 Medi.

Gellir cofrestru i'r achlysur yn awr a chyflwyno crynodebau o waith ymchwil. I gael rhagor o fanylion cysylltwch ag: Ann Lawton: a.b.lawton@bangor.ac.uk.



Economegwyr Iechyd o bob cwr o Gymru yng nghynhadledd WHEG fis Mehefin, Y Ganolfan Technoleg Amgen, Machynlleth. Mae'r adeilad yn y cefndir wedi'i wneud o furiau pridd caled ac mae'n rhan o Sefydliad Addysg Gynaliadwy Cymru (WISE)

## Trefniadau cyllido newydd

Ynghyd â chydweithwyr o Brifysgolion Bryste a Rhydychen, mae Colin Ridyard a Dyfrig Hughes wedi sicrhau cyllid gan yr 'MRC Network of Hubs for Trial Methodology Research' er mwyn sefydlu Gweithgor Defnydd a Chostau Adnoddau Economaidd Iechyd cenedlaethol.

Mae Carys Jones, Rhiannon Tudor Edwards a Bob Woods wedi ennill efrydiaeth NISCHR gyda'r teitl "Exploring the economics of hospital care for people with dementia".

Mae Joanna Charles a Rhiannon Tudor Edwards o CHEME a John Parkinson, Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor, wedi ennill efrydiaeth NISCHR gyda'r teitl "Improving the housing stock of Anglesey and Gwynedd: a health economics and behavioural psychology evaluation".

Fel rhan o'r rhaglen Economeg Iechyd Cyhoeddus yn CHEME, derbyniodd Rhiannon Tudor Edwards, ynghyd â chydweithwyr o Gaerlŷr, gyllid gan NIHR i ymgymryd ag astudiaeth o'r enw: "A cluster randomised controlled trial to investigate the effectiveness and cost-effectiveness of the 'Girls Active' intervention"

## Newyddion am Staff

Llongyfarchiadau i Emily a'i gŵr Tim ar enedigaeth eu bachgen bach hyfryd Ifor William Holmes. Mae'r fam, y tad a'r babi'n dod ymlaen yn dda.

Llongyfarchiadau i Lucy a'i gŵr Rob ar enedigaeth eu bachgen bach hyfryd Thomas Idris Laing. Mae'r fam, y tad a'r babi'n dod ymlaen yn dda.

Rydym yn ffarwelio â Paul Parham, a dymuniadau gorau yn ei swydd newydd ym Mhrifysgol Lerpwl.

Llongyfarchiadau i Carys Jones ar ei seremoni graddio ym Mhrifysgol Bangor 14 Gorffennaf.

Croeso i Elin Owen, a raddiodd o Fangor, sydd wedi ymuno â'r Grŵp Economeg Iechyd Cyhoeddus yn CHEME. Mae Elin yn gweithio ar ddatblygu ein helw cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn arbenigedd.

Croeso i Lorna Tuersley sydd wedi ymuno â'r grŵp Ffarmaeconomeg yn CHEME.

Croeso i Jackie Williams-Bulkeley sydd wedi ymuno â CHEME i gynorthwyo Rhiannon Tudor Edwards i gyd-olygu ag Emma McIntosh, Prifysgol Glasgow, y 5ed llawlyfr economeg "Applied Health Economics for Public Health Practice and Research", i'w gyhoeddi yn 2016.

## Cyhoeddiadau Diweddar


Whitaker R, Hendry M, Booth A, Carter B, Charles J, Craine N, Edwards RT , Lyons M, Noyes J, Pasterfield D, Rycroft-Malone J , Williams N. Intervention Now To Eliminate Repeat Unintended Pregnancy in Teenagers (INTERUPT): a systematic review of intervention effectiveness and cost-effectiveness, qualitative and realist synthesis of implementation factors and user engagement. BMJ Open 2014;4:e004733. doi:10.1136/ bmjopen-2013-004733

Noyes J, Lowes L, Whitaker R, Allen D, Carter C, Edwards RT, Rycroft-Malone J, Sharp J , Edwards D, Spencer LH, Sylvestre Y, Yeo S T and Gregory JW. Evidence into practice: The 'EPIC Project': Developing and evaluating a child-centered intervention for diabetes medicine management using mixed-methods and a multi-centre Randomised Controlled Trial. National Institute for Health Research (NIHR), Health Services and Delivery Research, 2014; 2(8). DOI: 10.3310/hsdr02080.

Schaffer S K, Sussex J, Hughes D and Devlin N. Opportunity costs of implementing NICE decisions in NHS Wales. Research Paper 14/02. 2014. London: Office of Health Economics.

Davies R, Jones M, Lloyd-Williams H. Age and work-related health: insights from the UK Labour Force Survey. British Journal of Industrial Relations. 2014. Published Online. Doi: 1111/bjir. 12059

Mulhern B, Rowen D, Snape D, Jacoby A, Marson T, Hughes D, Baker G, Brazier J. Valuations of epilepsy-specific health states: a comparison of patients with epilepsy and the general population. Epilepsy Behav. 2014 May 15;36C:12-17

Sutton S, Kinmonth AL, Hardeman W, Hughes D, Boase S, Prevost AT, Kellar I, Graffy J, Griffin S, Farmer A. Does Electronic Monitoring Influence Adherence to Medication? Randomized Controlled Trial of Measurement Reactivity. Ann Behav Med. 2014 Feb 27.

Mountain GA, Hind D, Gossage-Worrall R, Walters SJ, Duncan R, Newbould L, Rex S, Jones C, Bowling A, Cattan M, Cairns A, Cooper C, Edwards RT and Goyder EC. Putting Life in Years (PLINY) telephone friendship groups research study: pilot randomised controlled trial. Trials. 2014;15:141.

Quinn C, Anderson D, Toms G, Whitaker R, Edwards RT, Jones C and Clare L. Self-management in early-stage dementia: a pilot randomised controlled trial of the efficacy and cost-effectiveness of a self-management group intervention (The SMART study). Trials. 2014;15:74 doi:10.1186/1745-6215-15-74

Jones C, Edwards RT, Hounsome B. Qualitative exploration of the suitability of capability based instruments to measure quality of life in family carers of people with dementia. ISRN Family Medicine. 2014. Article ID 919613, doi:10.1155/2014/919613.

Bedson E, Bell D, Carr D, Carter B, Hughes D, Jorgensen A, et al. Folate Augmentation of Treatment - Evaluation for Depression (FolATED): randomised trial and economic evaluation. Health Technol Assess 2014;18(48)

O'Brien TD, Noyes J, Spencer LH, Kubis HP, Hastings RP, Edwards RT, Bray N, Whitaker R. 'Keep fit' exercise interventions to improve health, fitness and well-being of children and young people who use wheelchairs: mixed-method systematic review protocol. Journal of Advanced Nursing. 2014. doi: 10.1111/jan.12428


## Swyddi Gweigion

Mae CHEME ar hyn o bryd yn chwilio am Swyddog Ymchwil (lefel PhD) a Chynorthwyydd Ymchwil (lefel MSc) mewn Economeg Iechyd. Bydd deiliaid y swyddi'n cynnal gwerthusiadau economaidd ynghyd â phrofion clinigol ac yn cyfrannu at ymchwil fethodolegol gysylltiedig â'r asesiad economaidd o feddyginiaethau. Cysylltwch â'r Athro Dyfrig Hughes am ragor o fanylion ac am drafodaeth anffurfiol ar: d.a.hughes@bangor.ac.uk

Mae CHEME eisiau penodi rhai i ddwy efrydiaeth ym maes Economeg Iechyd Cyhoeddus a gofal dementia. Cysylltwch â'r Athro Rhiannon Tudor Edwards am ragor o fanylion ar: r.t.edwards@bangor.ac.uk

**Sut i gael hyd i ni**

Mae CHEME ar Safle'r Normal sydd rhwng Bangor ac Ynys Môn, ar ffordd yr A5.


Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol,
Ardudwy, Safle'r Normal, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2PZ